MWT Cymru

# Press & PR Toolkit

## Tips for Organising and Making the Most of Journalist Visits

Travel pages of newspapers and magazines are full of personal accounts by journalists based on actual experiences. Effective press trips, getting journalists to sample your product is an excellent way of achieving coverage – so how do you do it?

### Types of press trip

1. Where a journalist goes on an individual basis usually with partner/family. Apart from the fact they do not pay, they are just like any other customer taking a holiday.

2. Where the journalist is in a group - usually on an itinerary based on a destination or theme or special activity or event. On these trips, as a rule, journalists do not expect to pay for travel, accommodation, food or drink.

### First Steps

- Work together and prepare well.
- Organise the itinerary carefully. Focus on the quality of the experience. Don’t pack the schedule too full. If possible, allow some free time. Be careful of behind-the-scenes things that a visitor won’t be able to see. Show off local food and drink and entertainment. Understand deadlines - no point in hyping things that will be over before articles will be published. Have contingency arrangements, in case of bad weather or illness – maybe a change of venue – better to be prepared.

### Who to invite

- Decide which publications you wish to target. Advertise a press trip on specialist websites e.g. www.travmedia.com; research names of journalists; from your group, pull together a list of known contacts; invite them by letter or email.
- Include a draft itinerary - tell them about the length of the visit; what hotels they will stay in; where they will be eating; give them a day by day, hour by hour itinerary!



T- 01654 702653 | press@mwtcymru.co.uk

**Before the visit**

- Confirm attendance by letter or email.
- Send a confirmed itinerary. If walking or hiking or any activity - let them know what they should bring. Ask participants if they have dietary restrictions or mobility requirements.
- Send brochures, leaflets and maps - no one wants to carry around heavy bags of promotional material on the visit.
- Put together a good Press Pack – this should include background material and resources, images.

**During the visit**

- Smile! Keep it friendly and informative. Try and keep the group punctual. Stop at places that provide the best photo opportunities.
- Answer questions - if you don't have the answers, find out and let them know later.
- Try to be flexible - if the media need to take a photo or make an unplanned stop, do your best to accommodate requests (without putting the entire agenda too far behind!).

**After the visit**

- Stay in touch. Wait 2-6 weeks and then ask for feedback. What did they enjoy most? Do they have any suggestions? Do they need additional materials - including contact information or photos?
- Request copies of their articles, presentations or other materials. Be patient. Some journalists will produce articles immediately. Others will recycle the materials for later articles and even books years after the trip.
- Make the most of inviting media. If articles are online, link to them from the official website.



T- 01654 702653 | press@mwtcymru.co.uk

## Awgrymiadau ar gyfer Trefnu a Gwneud y Defnydd Gorau o Ymweliadau Newyddiadurwyr

Mae tudalennau teithio papurau newydd a chylchgronau'n llawn o adroddiadau personol gan newyddiadurwyr wedi'u seilio ar eu profiadau nhw eu hunain. Mae sicrhau bod newyddiadurwyr yn cael blas ar yr hyn sydd gennych chi i'w gynnig yn ffordd ardderchog o gael sylw – y cwestiwn yw, sut mae gwneud hynny?

### Mathau o ymweliadau gan y wasg

1. Newyddiadurwr yn mynd fel unigolyn – gyda phartner neu deulu fel rheol. Ar wahân i'r ffaith nad ydynt yn talu, maent yn union fel unrhyw gwsmer arall sy'n mynd ar wyliau.

2. Newyddiadurwr mewn grŵp – fel rheol bydd y daith yn canolbwyntio ar gyrchfan neu thema neu weithgarwch neu ddigwyddiad arbennig. Ar y teithiau hyn, fel rheol, nid yw'r newyddiadurwyr yn disgwyl talu am deithio, llety, bwyd na diod.

### Y Camau Cyntaf

- Cydweithio a pharatoi'n dda.
- Trefnwch y rhaglen yn ofalus. Canolbwyntiwch ar ansawdd y profiad. Peidiwch â gorlenwi'r rhaglen. Os oes modd, rhowch ychydig o amser rhydd. Byddwch yn ofalus gyda phethau tu-ôl-i'r-llenni nad yw ymwelydd yn gallu eu gweld. Gwnewch ymdrech i gyflwyno bwydydd a diodydd ac adloniant lleol. Holwch pryd fydd yr erthyglau'n ymddangos – bydd yn ofer tynnu sylw at bethau a fydd wedi gorffen cyn cyhoeddi'r eitemau. Gofalwch fod gennych drefniadau wrth gefn – rhag ofn tywydd drwg neu salwch – symud i rywle arall efallai – mae'n well bod yn barod.

### Pwy i'w gwahodd

- Penderfynwch pa gyhoeddiadau i'w targedu. Hysbysebwch ymweliad i'r wasg ar wefannau arbenigol e.e. www.press4travel; chwiliwch am enwau newyddiadurwyr; gweithiwch fel grŵp i lunio rhestr o gysylltiadau y gwyddoch amdanynt; anfonwch wahoddiad atynt trwy lythyr neu e-bost.
- Anfonwch raglen ddrafft – soniwch am hyd yr ymweliad; pa westai y byddant yn aros ynddynt; lle byddant yn bwyta; soniwch beth fyddant yn gwneud ar bob diwrnod, hyd yn oed bob awr!

### Cyn yr ymweliad


T- 01654 702653 | press@mwtcymru.co.uk

- Anfonwch lythyr neu e-bost i gadarnhau'r ymweliad.
- Anfonwch raglen derfynol. Os byddwch yn cerdded neu'n cymryd rhan mewn rhyw weithgarwch, nodwch beth y dylent ddod gyda nhw. Gofynnwch i'r rhai fydd yn dod a oes ganddynt ofynion arbennig o ran bwyd neu symud o gwmpas.
- Anfonwch daflenni a mapiau atynt ymlaen llaw – fydd neb yn dymuno cario bagiau trwm o ddefnyddiau hyrwyddo ar yr ymweliad.
- Trefnwch Becyn Newyddiadurwyr effeithiol – dylai gynnwys defnyddiau ac adnoddau cefndir a lluniau.

**Yn ystod yr ymweliad**

- Gwenwch! Byddwch yn gyfeillgar ac yn barod i roi gwybodaeth. Ceisiwch gadw at yr amserlen. Stopiwch mewn llefydd da i dynnu lluniau.
- Atebwch eu cwestiynau – os nad ydych yn gwybod yr atebion, chwiliwch amdanynt a rhoi gwybod iddynt wedyn.
- Ceisiwch fod yn hyblyg – os bydd newyddiadurwr yn gofyn am gael tynnu llun neu stopio mewn rhywle nad yw ar y rhaglen, ceisiwch ganiatáu iddynt wneud hynny (os na fydd yn amharu gormod ar eich amserlen!)

**Ar ôl yr ymweliad**

- Cadwch mewn cysylltiad. Arhoswch am 2 – 6 wythnos a gofyn am ymateb. Beth wnaethon nhw'i hoffi fwyaf? Oes ganddyn nhw awgrymiadau? A oes angen rhagor o ddefnyddiau arnyn nhw – yn cynnwys manylion cysylltu neu luniau?
- Gofynnwch am gopïau o'u herthyglau, eu cyflwyniadau neud defnyddiau eraill. Byddwch yn amyneddgar. Bydd rhai erthyglau'n ymddangos yn syth. Weithiau bydd newyddiadurwyr yn ailgylchu'r defnyddiau ar gyfer erthyglau ymhen peth amser neu hyd yn oed lyfrau, flynyddoedd ar ôl y daith.
- Manteisiwch i'r eithaf ar ymweliadau'r cyfryngau. Os bydd eu herthyglau ar y we, rhowch ddolen atynt o'ch gwefan swyddogol.


T- 01654 702653 | press@mwtcymru.co.uk